OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2015 No. 1992

Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015

RHAN 4

Tynnu neu amnewid modd adnabod anifeiliaid a gafodd eu hadnabod o dan Ran 3

Amnewid modd adnabod anifeiliaid a adnabuwyd yn unol ag erthygl 9 neu erthygl 11

14.—(1) Pan fo anifail, a adnabuwyd yn unol ag erthygl 9 neu erthygl 11, yn colli un modd adnabod, neu pan fo'r modd adnabod hwnnw'n mynd yn annarllenadwy, mae'r modd adnabod yn cael ei amnewid yn unol â'r erthygl hon os disodlir ef gan un sy'n dwyn yr un rhif 12 digid, neu os tynnir ymaith y ddyfais adnabod sy'n weddill ac ailadnabyddir yr anifail yn unol ag erthygl 9 neu erthygl 11.

(2) Pan fo anifail, a adnabuwyd yn unol ag erthygl 9 neu erthygl 11, yn colli'r ddau fodd adnabod, neu'r ddau fodd adnabod yn mynd yn annarllenadwy, mae'r anifail yn cael ei ailadnabod yn unol â'r erthygl hon os ailadnabyddir yr anifail yn unol ag erthygl 9 neu erthygl 11.